



WRECSAM YN COFIO
DIGWYDDIADAU
COFFA'R RHYFEL
BYD CYNTAF
WRECSAM
HYDREF – TACHWEDD

2018



wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wreccsam

Symffoni Cerddorfa Wreccsam



Cerddorfa Preswyl ym Mhrifysgol Glyndŵr Wreccsam
Llywydd Anrhydeddus: Yr Athro Maria Hinfelaar
www.wrexhamorch.co.uk Dilynwch ni ar Facebook a Twitter
mewn cydweithrediad â



Y Lleng Brydeinig Frenhinol Coffa o 100 mlynedd o The Armistice

Williams: Dartmoor 1912 (o War Horse)

Hindemith: Trauermusik

Butterworth: Merched Amwythig

Elgar: Sospiri a Nimrod

Panufnik: Sinfonia Sacra

Walton: Spitfire Prelude a Fugue

Bydd act o goffáu a darlenniadau o gerddi gan Wilfred
Owen ac eraill.

*'Pan fyddwch chi'n mynd adref, dywedwch wrthym amdanom ni a dweud amdanoch
chi, rhoesom ni heddiw'.*

Sadwrn 24 Tachwedd, 2018 am 7.15pm
Neuadd William Aston, Wreccsam Prifysgol Glyndŵr,
Ffordd yr Wyddgrug, Wreccsam LL11 2AW

Arweinydd: Stephen Threlfall
Arweinydd: Mark Lansom
Soloist: Rhiannon Collins

Tocynnau ar gael gan:

www.wrexhamorch.co.uk; www.glyndwr.ac.uk/events

Canolfan Groeso Wreccsam (01978 292015)

Swyddfa Croeso Llangollen (01978 860828)

Siop Rhodd Rowanthorn, Croesoswallt (01691 238227)

Tocyn Teulu £ 20 (2 oedolyn a hyd at 4 o blant) Stondinau £ 10 (Consesiynau £ 8)

Myfyrwyr, disgyblion ysgol a phlant ifanc £ 2



Rhagair

Mae'r rhan fwyaf ohonom yn gwybod y bydd mis Tachwedd eleni yn nodi canmlwyddiant diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf a Chadoediad 11 Tachwedd 1918.

Mae'r canmlwyddiant yn cynrychioli cyfle arwyddocaol i nodi'r digwyddiad hwn a chofio'r rhai hynny a fu'n rhan o frwydrau'r ganrif ddiwethaf, yn arbennig y rhai hynny sydd wedi'u coffa ar Gogolofnau Rhyfel ar draws y Fwrdeistref Sirol.

Fel Pencampwr y Lluoedd Arfog Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, rwy'n falch iawn o gael rhannu gyda chi rai o'r digwyddiadau sydd i'w cynnal ar draws y Fwrdeistref Sirol dros y cyfnod pwysig hwn.

Rwy'n gobeithio y bydd llawer ohonoch yn gallu rhoi o'ch amser i fynd i'r digwyddiadau lleol hyn, i gefnogi, mwynhau a hefyd i fyfrio.

Cynghorydd David Griffiths
Pencampwr y Lluoedd Arfog
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Calendr Digwyddiadau

COFIO'R ANGHOFIEDIG

Mae Cofio'r anghofiedig yn ymgyrch genedlaethol i gofio byddin gweithwyr y Rhyfel Byd Cyntaf – y Corfflu Llafur. Y Corfflu Llafur oedd yn cyflenwi'r fyddin ag arfau, bwyd, diod a thanwydd. Roedd y Corfflu yn adeiladu ac yn cynnal a chadw ffyrdd a rheilffyrdd ac yn rhan hollbwysig o ymdrechion y Rhyfel Byd Cyntaf. Ymunwch â ni i ddysgu mwy am y Corfflu Llafur sy'n cael eu cydnabod mor anaml, gyda milwr lifreiog o'r Rhyfel Byd Cyntaf yn adrodd straeon am y Corfflu, a gweithdy gwneud plethdorchau ym Marchnad y Cigyddion ddydd Sadwrn 13 Hydref o 11am tan 4pm.

GOLEUO SYSTEM CERFLUN NEWYDD SBON GARD D GOFFA

Gerddi Coffa, Rhostyllen

18 Hydref am 7.30pm

Fe fydd Cymuned Cofeb Ryfel Esclusham yn agor yn swyddogol yr Ardd Goffa newydd sbon yn Rhostyllen ar nos Iau, 18 Hydref am 7.30pm yn y Gerddi Coffa, Rhostyllen. Ar ôl yr agoriad bydd noddwr y prosiect, Uwchfrigadydd Cordingley, DSO, OBE, DSc yn cyflwyno sgwrs ar "Sut y mae'r ddau Ryfel y Gwlff wedi siapio'r byd yr ydym yn byw ynddo heddiw". Bydd y noson hefyd yn cynnwys darlleniad barddoniaeth, arddangosiad yr Amgueddfa Ryfel Imperialaidd, arddangosfa tîm prosiect Cofeb Ryfel Esclusham, bar a bwffe. Mynediad am ddim ond croesewir rhoddion tuag at gynnal a chadw'r gofeb. I gadw sedd cysylltwch â: esclushamcommunitycouncil@yahoo.com neu ffoniwch 01978 366491.

'LEST WE FORGET'

Theatr Grove Park, Wreccsam

25 Hydref i Sadwrn 3 Tachwedd

2.30pm / 7.30pm

Lest We Forget, Theatr Grove Park, Wreccsam yn cyflwyno dwy ddrama un act eithriadol i goffa'r Rhyfel Mawr: 'Hero' gan Michael J Lynch ac 'Our Friends, The Enemy' gan Alex Gwyther. Bydd 'Lest We Forget' yn rhedeg o ddydd lau 25 Hydref tan ddydd Sadwrn 3 Hydref gyda pherfformiadau gyda'r nos am 7.30pm a pherfformiad pnawn dydd Sadwrn 27 Hydref am 2pm. Ffoniwch y swyddfa docynnau ar 01978 351091, neu www.grovetheatre.co.uk am ragor o fanylion a phrisiau tocynnau.



MAE WRECCSAM YN EU COFIO NHW!

Neuadd Goffa, Llyfrgell Wreccsam ac Eglwys San Silyn

3 Tachwedd 2018

Mae Wreccsam yn eu cofio nhw! O 3 Tachwedd 2018 arddangosfeydd yn y Neuadd Goffa, Llyfrgell Wreccsam ac Eglwys San Silyn, Wreccsam. Lladdwyd o leiaf 545 o ddynion a dwy ddynes o Fwrdeistref Sirol Wreccsam mewn brwydrau neu o'u hanafiadau neu afiechydon wrth gyflawni eu dyletswyddau yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Collodd cannoedd yn fwy o'r pentrefi cyfagos eu bywydau hefyd. Mae'r arddangosiad hwn sydd wedi'i ledaenu dros dri safle yn datgelu straeon hynod dim ond nifer fechan ohonynt er mwyn dangos fod y 547 yn fwy na dim ond enwau ar gofeb.



WRECSAM YN COFIO

Galeri 1, Amgueddfa ac Archifau

Bwrdeistref Sirol Wreccsam

3 Tachwedd 2018 – 20 Gorffennaf 2019

Canrif ers y Cadoediad a'r cyfamodau heddwch

a ddaeth a'r brwydro i ben, mae gwirfoddolwyr wedi bod yn ymchwilio i'r straeon y tu ôl i'r cofebion, y medalau a'r arteffactau milwrol yng nghasgliadau Rhyfel Byd Cyntaf yr amgueddfa. Dewch i archwili'r hyn maen nhw wedi'i ddarganfod!



DOSBARTH CELF RAD AC AM DDIM – GALERI ANNIBYNNOL WRECSAM

Tŷ Pawb, Wrexham

1pm ar 6 Tachwedd

Mae Galeri Annibynnol Wreccsam yn cynnal dosbarth celf rad ac am ddim yn Tŷ Pawb am 1pm ar 6 Tachwedd gan gynnig y cyfle i ddysgu am Beintio Pabïau. Bydd hyn yn cysylltu arddangosfa gyntaf y Galeri yn Tŷ Pawb ag arddangosfa seiliedig ar y thema Cofio.

Mae **CYNGOR CYMUNED GWERSYLLT** yn trefnu rhaglen o ddigwyddiadau i nodi canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf. Bydd amrywiaeth o ddigwyddiadau dathlu a choffa ar gyfer pobl Gwersyllt. Bydd y penwythnos yn agor gyda chyngerdd cymunedol yng Nghanolfan Adnoddau Cymunedol Gwersyllt nos Wener 9 Tachwedd. Côr Brymbo fydd y prif adloniant a bydd darlleniadau barddoniaeth a rhyddiaith yn ogystal ag arddangosfa o waith celf lleol. Ar ddydd Sadwrn 10 Tachwedd bydd pobl leol yn cael eu hannog i gofio a rhannu gwybodaeth a phrofiadau personol yn ymwneud â rhyfeloedd a gwrthdaro yn y ganrif ddiwethaf, ac i ddod ag unrhyw luniau ac arteffactau sydd ganddynt gyda nhw. Bydd amrywiaeth o sesiynau crefft a gweithgareddau dweud straeon ar gyfer plant.



'LEST WE FORGET – A CONCERT TO REMEMBER'

Eglwys yr Holl Saint, The Green, Gresffordd

Dydd Gwener, 9 Tachwedd am 7pm

Bydd 'Lest We Forget – A Concert to Remember' yn cael ei gynnal yn Eglwys yr Holl Saint, The Green, Gresffordd ar ddydd Gwener, 9 Tachwedd am 7pm. Bydd y digwyddiad yn cynnwys Cantorion Rhos, a'r Cyfarwyddwr Cerdd Mathias Wurz. Pris y tocynnau yw £10 neu £8 gyda chonsesiynau i gefnogi'r Llenng Brydeinig Frenhinol. Archebwch eich tocynnau drwy ffonio : 07944 143119 neu anfonwch e-bost at pat.david.pearce@hotmail.com

FFOS AC AWYREN DDWBL Y RHYFEL BYD CYNTAF

Sgwâr y Frenhines, Wrecsam

Dydd Sadwrn 10 Tachwedd rhwng 10am a 4pm

Bydd ffos ac awyren ddwbl y rhyfel byd cyntaf ar Sgwâr y Frenhines, Wrecsam ar ddydd Sadwrn 10 Tachwedd rhwng 10am a 4pm. Dewch i archwilio'r ffos a chael mewnweliad gwyh i fywyd ar y Ffrynt Orllewinol yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Yn ogystal â'r ffos bydd Awyren Ddwbl yno - 'Bristol Scout Static' wreiddiol o'r Rhyfel Byd Cyntaf. Mae'r awyren wedi'i hadeiladu o nifer fawr o rannau gwreiddiol a hon yw'r unig enghraifft ar ôl yn y byd y gellir ei hedfan.





DAWNS AMSER TE AMSER RHYFEL

Neuadd Goffa Wrecsam

Dydd Sadwrn 10 Tachwedd, o 2pm tan 4pm

Dawns Amser Te Amser Rhyfel, dydd Sadwrn 10 Tachwedd, o 2pm tan 4pm yn Neuadd Goffa Wrecsam. Dewch draw i Ddawns Amser Te Cymreig hen ffasiwn gyda cherddoriaeth fyw i fynd a chi yn ôl mewn amser. Mae pris y tocynnau'n cynnwys sgonau ffres gyda jam a hufen, cacennau cri traddodiadol, bara brith a diodydd poeth. Mae'r tocynnau'n costio £3 ac ar gael o Ganolfan Groeso Wrecsam: 01978 292015 neu tic@wrexham.gov.uk



PHILIP JONES GRIFFITHS

Galeri 3, Amgueddfa ac Archifau Bwrdeistref Wrecsam

10 Tachwedd 2018 i 2 Mawrth 2019

Yn rhedeg o 10 Tachwedd 2018 i 2 Mawrth 2019 yn Galeri 3, Amgueddfa ac Archifau Bwrdeistref Wrecsam bydd arddangosfa gan Philip Jones Griffiths, a gafodd ei eni yn Rhuddlan, Gogledd Cymru. Roedd Philip yn ddyn ar genhadaeth i ddefnyddio camera i ddweud y gwir am y byd o'i amgylch. Hanner can mlynedd ar ôl diwedd y rhyfel a fyddai'n 'diweddu pob rhyfel', mae ei ffotograffau o Ryfel Fietnam wedi helpu i newid barn gyhoeddus. Cafodd yr arddangosfa ei churadu mewn partneriaeth â Llyfrgell Genedlaethol Cymru.



GWASANAETH COFIO BLYNYDDOL

Cofeb y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig, Bodhyfryd

Dydd Sul 11 Tachwedd am 10.55am

Bydd Gwasanaeth Cofio Blynyddol yn cael ei gynnal ger Cofeb y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig, Bodhyfryd, ddydd Sul 11 Tachwedd am 10.55am. Am 10.59am bydd biwglwr yn seinio'r 'Post Olaf' ac yna bydd dau funud o dawelwch. Gwahoddir aelodau'r cyhoedd i fynychu'r digwyddiad teimladwy hwn i gofio'r rhai a gollodd eu bywydau yn y ddau Ryfel Byd a sawl gwrthdaro wedi hynny.



FFAGLAU GOLEUNI

Eglwys San Silyn, Wrecsam

Dydd Sul 11 Tachwedd, 7pm

Fel rhan o'r digwyddiad hwn bydd dros 1,000 o ffaglau'n cael eu cynnau ledled y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw a thiriogaethau'r DU Dramor fel symbol o ddiweddu tywyllwch rhyfel a dychwelyd i oleuni heddwch. Yma yn Wrecsam bydd ein ffagl olau ni yn cael ei chynnu am 7pm ar ben Eglwys San Silyn.



WARHORSE (12A)

Tŷ Pawb, Wrecsam

12 Tachwed, dechrau am 7pm

Dewch draw i Tŷ Pawb ar 12 Tachwedd o 7pm tan 9pm er mwyn gwyllo'r ffilm Warhorse (12A). Mae'r ffilm ddrama ryfel hon a gafodd ei chyfarwyddo a'i chyd-gynhyrchu gan Steven Spielberg yn seiliedig ar nofel 1982 Michael Morpurgo o'r un enw.

RHYFEL - EI ARDRAWIAD AR DEULUOEDD DRWY BERFFORMIAD AR LAFAR, YN YSGRIFENEDIG A CHERDDOROL

Llyfrgell Wrecsam

Dydd Iau 15 Tachwedd, 6.30am 7pm

Bydd myfyrwyr o Brifysgol Glyndŵr Wrecsam ac Ysgol Maelor yn perfformio ac yn cael ei gefnogi gan theatr a grwpiau corawl o'r ardal.



OH WHAT A LOVELY WAR (PG)

Tŷ Pawb, Wrecsam

18 Tachwedd, dechrau am 7pm

Mae Tŷ Pawb hefyd yn dangos y ffilm 'Oh What a Lovely War' (PG) ar 18 Tachwedd o 7pm tan 9pm. Dangoswyd y ffilm wrthryfel glasurol hon yn wreiddiol yn gynnar yn y 1960au.



CYNGHERDDAU AM DDIM

Galeri 2, Tŷ Pawb

'Dydd Iau yn 1pm i 2pm

Bydd Tŷ Pawb yn cynnal nifer o gerddorion lleol a fydd yn perfformio cerddoriaeth Coffa a cherddoriaeth o flynyddoedd y rhyfel (croesewir rhoddion)

CERDD
tŷ pawb
MUSIC

Dydd Iau 8 Tachwedd

ROBERT PARRY

Piano

Dydd Iau 15 Tachwedd

JAGO PARKYN

Piano

Dydd Iau 22 Tachwedd

MIRIAM PEAKE

Piano

COFFA 100 MLYNEDD ERS Y CADOEIAD

Neuadd William Aston, Ffordd yr Wyddgrug, Wrecsam

Nos Sadwrn 24 Tachwedd am 7.15pm

Bydd Cerddorfa Symffoni Wrecsam mewn Cydweithrediad â'r Llenng Brydeinig Frenhinol yn cynnal digwyddiad i gofio 100 mlynedd ers y Cadoediad ddydd Sadwrn 24 Tachwedd am 7.15pm yn Neuadd William Aston, Prifysgol Glyndŵr Wrecsam, Ffordd yr Wyddgrug, Wrecsam, LL11 2AW. Bydd gweithred goffa a darlleniadau o gerddi Wilfred Owen ac eraill. Tocynnau ar gael o : www.wrexhamorch.co.uk a www.glyndwr.ac.uk/events neu o swyddfeydd Canolfannau Croeso Wrecsam neu Llangollen.

ARDDANGOSFA PABI

Eglwys Sant Tydful, Coedpoeth ac Eglwys San Silyn

Os ydych allan yng nghyffiniau Wrecsam dros y misoedd nesaf, ewch i gael golwg ar yr arddangosfeydd Pabi anhygoel yn Eglwys Sant Tydful, Coedpoeth ac Eglwys San Silyn yng nghanol y dref. Mae'r eglwysi wedi eu haddurno gyda channoedd o babiâu bach wedi'u gwau i ffurfio 'ffenestr wylo'. Maen nhw wirioneddol yn ychwanegiad trawiadol dros ben at yr eglwysi.



OEDDET TI'N GWYBOD.....

Beth sydd gan Jelly Babies i wneud gyda'r Rhyfel Byd Cyntaf?

Lansiodd George Bassett & Co., un o gynhyrchwyr melysion hynaf Prydain, eu fersiwn eu hunain o Jelly Babies, a elwir yn 'Peace Babies', Babanod Heddwach ganrif yn ôl i ddathlu diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf. Cafodd y melysion eu dyfeisio yn gyntaf yn 1864 gan ddyn o Awstria yn gweithio yn Sir Gaerhirfryn.



Roedd y Babanod Heddwach yn boblogaidd rhwng y 2 ryfel byd ond daeth y cynhyrchiad i ben yn yr Ail Ryfel Byd oherwydd dogni. Ail-ymddangosodd y Babanod Jeli yn y jariau hen-ffasiwn hynny yn 1953 gyda diwedd y dogni melys.

Nawr i goffáu canmlwyddiant diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf, mae Maynards Bassetts wedi creu pecyn arbennig o Fabanod Heddwach sydd ar gael yn Tesco. Bydd y pecynnau'n codi arian ar gyfer elusen i gynorthwyo'r cyn-filwyr Help for Heroes.



THERE BUT NOT THERE

Edrychwch allan am y ffurfiau *There But Not There* ar draws Wrecsam sy'n rhan o ymgyrch cenedlaethol. Bydd silwetau o ffigurau yn cael eu rhoi mewn mannau addoli, gweithleoedd, ysgolion a lleoliadau eraill ar draws y wlad, gyda phob silwét yn cynrychioli enwau ar gofebion rhyfel lleol. Sefydlwyd y prosiect i: Gofio, Addysgu a Gwella.

Cofio'r rhai a fu farw yn y Rhyfel Byd Cyntaf trwy osod silwetau lle bynnag y mae Rhestr Gwroniaid.

I **Addysgu** pob cenedlaeth, yn enwedig cenedlaeth iau heddiw, a anwyd bron i 100 mlynedd ar ôl i'r Rhyfel Byd Cyntaf ddechrau, i ddeall yr hyn a arweiniodd at farwolaethau 888,246 o bersonél gwasanaeth Prydain a'r Gymanwlad.

Gwella cyn-filwyr heddiw sy'n dioddef o glwyfau meddyliol a chorfforol trwy godi arian sylweddol trwy werthu'r Silwetau o'r enw Tommies.

SILWETAU TAWEL

Efallai y byddwch hefyd yn gweld rhai o Silwetau Tawel y Lleng Brydeinig Frenhinol yn ymddangos o gwmpas y fwrdeistref sirol. Mae'r rhain yn rhan o fudiad y LIPF i ddweud "Diolch" i genhedlaeth y Rhyfel Byd Cyntaf a wasanaethodd, aberthwyd, ailadeiladodd a newidiodd y genedl. I gefnogi'r mudiad "Diolch" mae'r LIBF yn cynnig amrywiaeth o silwetau i symboleiddio'r cymunedau a gymerodd ran yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Edrychwch am y tri sy'n mynd i ymddangos o gwmpas Sgwâr y Frenhines i gynrychioli'r Llynges, y Fyddin a'r Llu Awyr Brenhinol.



PERCY - STORI AM 1918

Stori deimladwy am hogyn lleol o Gefn Mawr. Mae llythyrau a ddarganfuwyd mewn marchnad rad yn deud stori am fachgen yn ei arddedau a'i garaid Kitty. Stori am 1918 yw hon. Mae hi'n stori wir. Cafodd Percy Edwards ei gonscriptio i'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig yn 1918 a chafodd ei anfon i'r blaen, yn 18 oed. Yn drist, bu farw o'i glwyfau dair wythnos ar ôl iddo gyrraedd. Mae'r llyfr unigryw hwn wedi ei seilio ar eiriau dyn ifanc o Gefn Mawr gan ddefnyddio dogfennau, dyddiaduron rhyfel, cyfrifon o frwydr a phapurau newydd. Darlun cywir o'r rhyfel, stori un milwr o Gefn Mawr sy'n cynrychioli'r darlun mwy. Ysgrifennwyd gan yr hanesydd Peter Doyle ac fe'i lluniwyd gan Tim Godden. Yr hyn mae Percy yn ei dystiolaethu ydi darlun dilys o flwyddyn olaf y Rhyfel Mawr, trwy lygaid un dyn ifanc. Mae stori Percy yn nodweddiadol o'r flwyddyn ddiwethaf o'r rhyfel, pan roedd y Fyddin Brydeinig yn conscriptio rhyfel o bobl ifanc 18 oed. Mae hefyd yn stori am gyfraniad Cymru i'r Rhyfel Mawr.

Mae Percy 1918 ar gael i'w brynu gan pob stocwyr llyfrau da ac os hoffech ragor o wybodaeth am y stori hon, gallwch gysylltu â'r awdur yn @ProfPeterDoyle.



Cynhyrchwyd y llyfryn hwn gyda chyllid gan Ymddiriedolaeth Cronfa Cyfamod y Lluoedd Arfog sy'n sefydliad sy'n cefnogi gwaith sy'n cael ei ddarparu ar gyfer ein Lluoedd Arfog yn y DU.

Mae Cyfamod y Lluoedd Arfog yn addewid gan y genedl sy'n sicrhau bod y rhai sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu, a'u teuluoedd, yn cael eu trin yn deg. Gwneir yr ymrwymiad hwn i gydnabod yr aberthion a wnânt ar ran y wlad. Nid yw Cyfamod y Lluoedd Arfog wedi'i gynllunio i roi triniaethau ffafriol i'r Lluoedd Arfog, Cyn-filwyr a'u teuluoedd o'u cymharu â dinasyddion eraill ond dylai sicrhau eu bod yn cael borgen deg ac nad ydynt o dan anfantais oherwydd eu Gwasanaeth.

Mae Cyfamod y Lluoedd Arfog yn dibynnu ar y llywodraeth, cymunedau, busnesau ac unigolion y DU i gefnogi'n weithredol er mwyn gwneud gwahaniaeth.

Gyda'ch help, gall Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam barhau i godi ymwybyddiaeth o'r materion a wynebir gan ein Lluoedd Arfog a chynnisio cefnogaeth a chynghor lle bo angen.

Os hoffech ragor o wybodaeth am y gwaith sy'n cael ei wneud yn ardal Wreccsam, anfonwch e-bost at afcc@wrexham.gov.uk

**ARMED FORCES
COVENANT
FUND TRUST**

